

O gyfiawnder pur tragwyddoll
O gyfiawnder maith didrai!
Rhaid i'm henaid noeth newynlyd
Gael yn fuan dy fwyhau;
Rho dy wisg ddysglaer-wen oleu,
Cuddia'm noethni hyd y llawr,
Fel nad ofnwyf mwy ymddangos
Fyth o flaen dy orsedd fawr.

Nid oes genyf ddim ond bratiau,
Dail yw'm gwisgoedd gorau gyd,
Tan digofaint oll a'u difa,
Llysg y soft cras ynghyd;
Gem a pherlau gwrthfawrocaf,
Gwell nag eiddo'r India draw,
Yw'th gyfiawnder i ymddangos,
O fy mhlaid y dydd a ddaw.

Ac, wrth gwrs, y mae 'na wedd o ddychryn ac o arswyd ar yr ymwybod hwn â chyfiawnder a sancteiddrwydd Duw: peth sydd wedi ei golli, i raddau pell, o'n hymwybod crefyddol ni yn y Gymru gyfoes. Fe wanychwyd yr ymwybod hwnw'n ddirfawr erbyn hyn. Gan gyfeirio at y cyfiawnder a amlygwyd yng Nghrist, meddai Williams:

Dyma'r fan, a thyma'r cysgod,
Dyma'r trysgor gwerthfawr drud,
Ddal fy enaid yn y corwynt,
Dyfroedd mawr anfeidrol lid;
Dyma yn unig wyf yn geisio,
Dyma geisaf tra f'wyf byw,
Bwyta, yfed fyth, a gwisgo
O gyfiawnder pur fy Nuw.

Sylwch ar y geiriau a ddefnyddir ganddo i ddelwedd cyfiawnder Duw: 'yn y corwynt' a 'Dyfroedd mawr anfeidrol lid'. Go brin y byddai llawer ohonon ni bellach yn barod i ddefnyddio'r ymadrodd 'anfeidrol lid' mewn cysylltiad â Duw ond dallineb ysbrydol yn unig a'n cadwai ni, 'dybiwn i, rhag cydnabod gyda Williams ein bod oll o dan farn.

Mae dechrau pennod chwech Eiseia yn dweud y cyfan, onid yw? Ei ymateb ef, y proffwyd, i fawl y seraffiaid:

Gwac fi! Y mae wedi darfod amdanaf! Dyn a'i wefusau'n aflan ydwyf, ac ymysg pobl â'u gwefusau aflan yr wyf yn byw; . . .

* * * *

UN CANLYNIAD i weld yr Arglwydd yn ei sancteiddrwydd, yn ôl Williams, yw gweld yn un pryd mor druenus yw hunan-ymffrost dyn ac mor wag yw ei apêl at ei weithredoedd da ei hun. Cawsom gip ar hynny yn un o'r penillion a ddyfynnais gynneu:

Nid oes genyf ddim on bratiau,
Dail yw'm gwisgoedd goreu gyd . . .

a threiwir yr un nodyn yn union mewn llawer o'r emynau hyn. Er enghraifft, dyma ichi ffordd effeithiol — trwy baradocs dramatig — o fynegi'r pwynt:

Mae golwg arnat ti fy Nuw
Yn drysor ddiagon tra f'wyf byw;
Mae golwg arnat ti di (sic) hun
Yn d'wedd mor salu ydyw dyn.

Ond yn y ddau bennill canlynol y cawn ni'r datganiad grymusaf o ddiymadferthedd apêl dyn at ei ragoriaethau a'i gyflawniadau ei hun:

Ni all ymryd trist a gweddi,
Fyn'd yn lan a mi i'r lan,
Nac un cylech o ddyletswryddau
'Nghodi ronsyn bach o'r man;
Grym y llygredd sy'n fy nghalon,
Cryf ac anorchfygol yw,
Nid oes fythoedd a'i gorchfyga,
Ond yn unig nerth fy Nuw.

Pe b'ai bosibl i mi dreulio
'R graig wrth roi fy nghiniau lawr,
Gumeud afonydd o fy nagrau,
Llanu hefyd fforedd mawr;
Rhanu trysor y mynyddau
Rhwng y tlodion ym mhob man;
Anhaeddiannol eilwaith fyddwn
Fyth o gael fy nghodi i'r lan.

* * * *

MI SYMUDWN ni rwan oddi wrth ddyn yn ei gyflwr naturiol i'r man lle mae o wedi ei lwy'r argyhoeddi o'i bechadurusrwydd ac wedi dechrau bwrw ei ymddiried ar Grist am waredigaeth o'i gaethiwed.

Dyma lle mae o'n cael ei gyfiawnhau; ei gyfri yn dderbyniol gan Dduw, nid ar sail ei haeddiant ei hun, bid siwr, ond oherwydd ei fod yn barod i'w roi ei hun i Dduw yng Nghrist. Yn rhinwedd ei undeb â Christ — ei gymundeb, ei gyfeillgarwch â Christ, os mynnwch — y mae o'n cael ei gyfri yn union gerbron Duw. Dyma'r cyfiawnhad trwy ffydd.

A'r prif ddelweddau a ddefnyddir gan Williams i oleuo, i wneud yn fyw a gafaalgar inni, yr undeb hwn, yw'r rheinyr ydyn ni'n gyfarwydd â nhw pan mewn cymdeithas gariadus â'n gilydd. Iaith cariad, gan gynnwys y cariad anhunanol, diniwed, rhwng mab a merch, dyna iaith yr undeb.

Ac o'r cyd-destun hwn y cyfyd llawer o'r angerdd sydd yng nghanu Williams; a phwy ohonon ni sydd nad ydyn ni wedi cael ein llorio, weithiau, gan yr angerdd hwn sydd yn ei emynau? Mae'n nodwedd arbennig ar ei ganu. Bwriwn olwg byr dros rai gweddau arno.

Dyma ichi, i ddechrau, restr o eiriau ac ymadroddion sy'n brigo i'r wyneb dro ar ôl tro yn ei emynau:

Cyfaill; ffrynd; dyweddi; priodfab; priod; anwylyd, cump'ni; ond yn unig dy fwyhau; llanw'm bryd; grym dy gariad; priodasol wledd; dy fod yn eiddo imi; a'th wna di a minnau'n un; tegwch d'wyneb pryd . . .

ac y mae'r berfenw 'caru' a'r enw 'cariad' yn britho llinell ar ôl llinell a phennill ar ôl pennill.

Trown at rai penillion; bron na allech fentro taro arnyn nhw ar antur. Rwan, mae'r sawl sydd wedi bod mewn cariad dros ei ben — wedi mopio, wedi dwli, ar arall — yn siwr o'u deall nhw'n burion.

Profiadau llwyr ymgolli mewn rhywun arall ydi'r profiadau a fynegir ynddyn nhw mor aml, a hynny mewn dull syml, uniongyrchol, mewn iaith gartrefol, gyfarwydd, sy'n gafael ynon ni yn y fan a'r lle. Gwrandewch ar rai penillion:

'D oes ond cariad a goncwera,
Oll sydd ymwyf 'n awr yn ddrwg,
Dy wen yn unig wna i'm ganu,
Tori nghalon wna dy wg;
Fy nghof, fy neall, a'm synwraur,
Sydd yn mron llewygu eu gyd;
Ac yn ffaelu cadw eu trefn,
Eisiau gweld dy wynebpryd.

O derchafa'm henaid egwan!
Y mae bellach yn hwyrhau,
Hir yw'r amser i och'neidio,
Gwna fi o'r diwedd lawenhau:
Moroedd mawr a bryniau lawer,
Pellder annyoddefol sy';
Ac anialech maith digymhar,
Rhyngof a'm Hanwyllyd cu.

Poen fy nghalon yw o gariad,
Estron nid yw'n deall dim,
Gair fy Mhriod laesa mhoenau,
Ei eiriau sy'n effeithiol im';
Llad ym ddystaw mae ei gariad,
Heb gael gwel'd ei nefol wedd,
Mae eiddigedd yn ei cump'ni,
Sydd yn greulon fel y bedd.

Mae'r gair 'eiddigedd' yna yn un a geir yn aml yng nghanu Williams. Roedd o'n ddigon o realydd i gydnabod fod eiddigedd yn rhan o wead y profiad o garu yn hyn o fyd. Gwyddai, fel y gwyr cariadon cyntaf, fod 'na lawer o ofni ac o bryderu ynglŷn â charu: ofnau yn codi o'r ddau du i'r berthynas:

Ond oh! eiddigedd sydd yn lladd,
Yn greulon iawn o radd i radd,
'D oes iddo feddygriaeth ddim,
Ond profi'th gariad yn ei rym.

Rhyw ofnau ymwy'n fymych mae,
Nad yw dy gariad yn parhau,
Neu ofni eilwaith nad wyf fi
Yn ffyddlon yn dy garu di.

A'r ofn cyntaf yna, wrth gwrs, sy'n ei ddychryn fwyaf: yr ofn y gall fod gwrthrych ei gariad, oherwydd ei annheilyngdod ei hun, yn cilio oddi wrtho:

Gwrando 'nghwyn, Tywysog heddwch,
Mae eiddigedd ymwy'n llawn;
Ofni nad wyf yn fy ngharu,
'Ngharu yn ffyddlon ac yn iawn; . . .

Dro arall, serch hynny, yng ngrym ac angerdd y profiad o fod wedi llwyr ymgolli yn ei gariad y mae'r Cristion, fel y cariadau ifanc, yn ymfyfrdy ac yn gloddesta ar y berthynas. Mae enw'r cariad, ynddo'i hun, yn hyfrydwch pur:

Mae fy nghalon yn 'sgrifenu,
Ac yn adrodd wrthi ei hun,
Enw hyfryd a rhimueddol
Duw yn gwisgo natur dym;
Iechyduriaeth, iechyduriaeth,
Iechyduriaeth werthfawr iawn,
Ydyw enw fy Ngwaredwr,
Genyf foreu a phrydnawn.

Ac y mae 'na ymffrost, o fath, mewn cariad hefyd. 'All y llanc ifanc neu'r ferch ifanc ddim peidio â sôn am y cariad yn hollol agored gerbron pobol. Felly hefyd y Cristion; mae yntau am arddel ei gariad gerbron y byd:

Ni raid i mi guddio'th gariad,
Fel cariadau gwag y byd,
Mi gyhoedda o flaen y werin,
Dy fod wedi dtwyn fy mryd; . . .

* * * *

MI DDYCHWELWN ni'n fyr, yn y rhan olaf 'ma, at y pwynt cyntaf a wnes i, sef mai ar gyfer credinwyr y llunir emynau, a'r credinwyr hynny yn ddigon aml yn rhai gwachul a gwamal.

A rhoi'r mater yn nhermau'r diwygwyr methodistaidd: tra bo ail-eni yn rhywbeth unwaith ac am byth mae sancteiddio, ar y llaw arall, yn waith araf, blinderus, caled a pharhaus. Yn ffodus, 'dydi o ddim heb ei orfoledd a'i gysurus serch hynny.

Gadewch inni rwan fwrw golwg frysiog, gyffredinol ar y ddwy wedd yna i'r gwaith o sancteiddio: yr un araf, boenus a'r un gysurus, lawen. Un o'r rhwystrau mawr ar y daith yw anghrediniaeth.

Fe all y gair yma gyfeirio, wrth gwrs, at fethiant person i greu ym modolaeth Duw. 'Mae Duw wedi marw', chwedl Nietzsche. A dyna roi blas athronyddol, academiaidd ar y gair. Yn ein cyd-destun ni, fodd bynnag, mi allwn ni anwybyddu'r ystyr yna.

Yn fyr, yr ystyr sydd iddo fo yn yr emynau ydi rhywbeth fel 'diffyg ymddiried yn Nuw'; diffyg ffydd ynddo — a defnyddio ymadrodd arall cyfarwydd. Neu eto, methu â dibynnu arno. Y mae yna, o du'r credinwyr, ffydd sy'n wan a ffydd sy'n gref, a graddau lawer o'r naill a'r llall.

Roedd Williams yn fyw iawn i hyn. Fe wyddai am y profiad ei hun yn ddiamau a chafodd dyst ohono droeon ym mywydau pobol y seiaidau. Yn wir, pa grediniwr sydd nad yw'n gwybod amdano?

(I Dudalen 18)